Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl341

**Amseru: Unigol**

**Teitl:** Drwy Eu Llygaid Hwy – Hyfforddiant Cam-drin Domestig Realiti Rhithwir

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:**

**Crynodeb Gweithredol:**

Gofynnir am arian i gefnogi prosiect ar y cyd rhwng Heddlu Dyfed-Powys, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Aberystwyth i greu newid gweithredol drwy hyfforddiant sy'n cynnwys technoleg i drawsnewid yr ymateb i Gam-drin Domestig. Bydd hyn yn canolbwyntio ar brofiad dioddefwyr o ddarpariaeth gwasanaeth ac mae'n anelu i wella cyflenwi gwasanaethau.

Bydd y prosiect yn treialu dull newydd o gyflwyno hyfforddiant Cam-drin Domestig drwy setiau pen realiti rhithwir ac mae'n cynnwys gwerthusiad academaidd drwy lygaid hyfforddeion a hyfforddwyr.

Mae'r prosiect yn unol â blaenoriaeth CHTh o gefnogi dioddefwyr ac mae'n cynrychioli perthynas weithio gydweithredol rhwng HDP, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Aberystwyth o ran datblygu technoleg ymdrochi i drawsnewid hyfforddiant trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar gyfer swyddogion heddlu ac ymarferwyr rheng flaen eraill.

Mae'r arian yn cael ei ddarparu drwy Gronfa Arloesedd CHTh – crëwyd y gronfa hon er mwyn cefnogi prosiectau a chynlluniau peilot sydd heb eu harchwilio yn Nyfed-Powys o'r blaen, gan roi cyfle cyffrous i dreialu ffyrdd newydd o weithio. Bydd y Gronfa Arloesedd ond yn hygyrch i brosiectau sy'n bodloni'r amodau hyn ac sydd ddim angen unrhyw ymrwymiad ariannol gan y CHTh yn y dyfodol.

**Argymhelliad:**
Rhoi £30,365.57 o'r Gronfa Arloesedd tuag at ddatblygu a chyflenwi'r prosiect.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 17/9/24**